PAM MAE ANGEN PRIDWERTH AR Y DDYNOLIAETH

Nodyn i'r siaradwr:
Helpwch eich cynulleidfa i ddeall a gwerthfawrogi'r angen am y pridwerth. Eglurwch sut mae elwa ohono a'r bendithion sy' ar gael inni 'nawr ac yn y dyfodol oherwydd y rhodd fwyaf hon oddi wrth Dduw.

PAM 'ROEDD ANGEN PRIDWERTH (5 mun.)

Rhodd fwyaf Duw i'r ddynoliaeth ydi'r pridwerth (*w*91 2/15 10)

Dyma sail ein gobaith am fywyd tragwyddol (In 3:16)

Daeth angen am bridwerth pan bechodd Adda (Rhuf 5:12)

Fedrai disgynyddion amherffaith pechadurus Adda ddim eu hachub eu hunain rhag marwolaeth na chwaith drefnu'r pridwerth (Salm 49:7, 8)

Yn ei gariad, anfonodd Duw ei Fab yn bridwerth (Mc 10:45)

Sylfaen gwir Gristnogaeth ydi credu i Iesu farw'n bridwerth yn gyfnewid am y ddynoliaeth bechadurus

Ac eto, mae llawer sy'n Gristnogion o ran enw yn aml yn methu dangos ble yn y Beibl mae'r athrawiaeth na'i hegluro (*w*91 2/15 4)

Fe ddylai gwir Gristnogion ddeall yr athrawiaeth hon a hefyd medru ei hegluro (Eff 3:18)

Beth ydi'r pridwerth? Pwy sy'n ei ddarparu e? I bwy mae talu'r pridwerth? Sut mae elwa ohono?

SUT DAETH BYD CRED I WRTHOD Y PRIDWERTH (5 mun.)

Ychydig o blith clerigwyr Byd Cred heddiw sy'n credu athrawiaeth y pridwerth fel y mae yn y Beibl (*w*91 2/15 3-7)

Wedi i'r apostolion farw fe gododd dadleuon diwinyddol dryslyd ymhlith arweinwyr eglwysig (Act 20:29, 30; 2Tim 4:3, 4)

Fedren nhw ddim cytuno ar gwestiynau fel: I bwy y talwyd y pridwerth? Pam 'roedd angen talu hyn?

'Roedd rhai diwinyddion yn dysgu fod Duw wedi talu'r pridwerth i Satan

'Roedd rhai yn dadlau nad oedd marw Crist yn bridwerth nac yn gyfnewid cyfartal-fod cyfiawnder yn mynnu angau rhywun oedd yn "Dduw ac yn ddyn"

Wrth i'r ddamcaniaeth hon gael ei derbyn gan y mwyafrif, mi gafodd yr ymadrodd "pridwerth" ei roi o'r neilltu

Dyw'r rhan fwyaf o eglwysi heddiw ddim yn dysgu am y pridwerth

Mae diwinyddion Pabyddol a Phrotestannaidd yn dal i roi lle mwy

blaenllaw i draddodiad a doethineb dynion nag i'r Ysgrythur (Jer 8:9)

Mor wahanol ydi'r cylchgrawn *Watchtower,* sydd wedi rhoi lle amlwg iawn i'r pridwerth am dros ganrif (*jv* 47-8, 619-21)

Os rhown gyfle i'r Ysgrythurau siarad, mi fedrwn ni ddod i ddeall yr athrawiaeth hon yn glir

PRIDWERTH CYFATEBOL (20 mun.)

Pridwerth ydi'r hyn sy'n rhaid ei dalu i brynu'n ôl neu sicrhau rhyddhad oddi wrth rhyw ddyletswydd neu amgylchiadau annymunol

Yn yr Ysgrythurau Hebraeg mae'r gair am bridwerth yn dod o ferf sydd â'r ystyr "gorchuddio" (*w*99 2/15 13-15; *w*91 2/15 11-12; *it*-2 733-4)

Mae'n hanfodol fod y pridwerth, neu'r gorchudd, yn cyfateb yn hollol i'r hyn mae'n ei orchuddio, naill ai o ran ffurf neu o ran gwerth

Felly mae cyfiawnder dwyfol yn gofyn "bywyd am fywyd, llygad am lygad, dant am ddant, llaw am law, troed am droed" (Deut 19:21)

Dim ond bywyd perffaith, un oedd yn cyfateb i'r bywyd a gollodd Adda, fyddai'n addas i fod yn bridwerth (*w*91 2/15 12-13)

Fyddai Duw-ddyn ddim yn cyfateb i Adda; fyddai marwolaeth un felly ddim yn cydbwyso ar gloriannau cyfiawnder

Gan fod bodau dynol yn uwch nag anifeiliaid, fyddai aberthu anifail ddim yn gwneud y tro chwaith (Heb 10:1-4)

Fedraineb o'r hil ddynol amherffaith fod yn bridwerth (Job 14:4)

Jehofah ddarparodd y pridwerth drwy offrymu Iesu yn "bridwerth cyfatebol dros bawb" (1Tim 2:6 *NW; w*91 2/15 13-16)

Gan fod Iesu'n cyfateb yn union i Adda, 'doedd dim angen aberthu miliynau o unigolion dynol ar gyfer pob un o ddisgynyddion Adda (Rhuf 5:19; 1Cor 15:21, 22)

Oherwydd Iesu fe ddaeth hi'n bosib gwneud i ffwrdd â'r ddedfryd marwolaeth oedd ar hil Adda (Heb 2:9)

Felly cafodd awdurdod dinistriol pechod ei dorri yn y gwraidd Ond i bwy cafodd y bridwerth ei dalu? (*w*91 2/15 14)

Mae Salm 49:7 yn dangos yn eglur mai "i Dduw" y talwyd y pridwerth

Er mai Duw sy'n darparu'r pridwerth a hefyd yn ei dderbyn, 'dyw'r cyfnewid hwn ddim yn ddibwrpas nac yn ddideimlad

Wrth fynnu fod y pridwerth yn cael ei dalu mae Duw yn ei gwneud yn amlwg ei fod am lynu wrth egwyddorion cyfiawn

Ar Nisan 14, 33 C.C. fe adawodd Duw i'w Fab pur a dibechod farw ar bren, ac felly dalu pris y pridwerth

Y trydydd dydd wedi'i farwolaeth, fe gafodd Iesu ei godi o gyflwr angau i fod yn ysbryd fod nerthol (Act 10: 40; 1 Pedr 3:18)

Fe barhaodd Iesu ei waith o waredu drwy gyflwyno i Dduw werth cyfreithiol ei fywyd dynol perffaith (Heb 9:11, 12, 24)

Adeg Pentecost 33 C.C. fe ddaeth yn amlwg fod Jehofah wedi derbyn gwerth yr aberth pridwerthol (Act 2:1-4)

BUDD A LLES TREFNIANT Y PRIDWERTH (10 mun.)

Mae'r pridwerth yn ei gwneud hi'n bosib i Dduw gymodi ag ef ei hun 'y pethau yn y nefoedd a'r ddaear' (Col 1: 14, 20; *w*91 2/15 15-19)

Drwy gyfrwng y pridwerth mae'n bosib gwneud "cyfamod newydd" gyda 144,000 i wasanaethu'n frenhinoedd ac yn offeiriaid yn y nefoedd gyda Christ (Heb 8:6-13; Dat 5:9, 11)

Nhw, yn raddol, fydd yn gweithredu canlyniadau llesol y pridwerth i'r ddynoliaeth yn ystod y Teyrnasiad Mil Blynyddoedd (1Cor 15:24-26; Dat 21:3, 4)

Mae'r pridwerth hefyd yn cymodi 'y pethau ar y ddaear'-y rhai hynny sydd â gobaith cael byw am byth ym Mharadwys

Eisoes mae "tyrfa fawr" wedi 'golchi eu mentyll yng ngwaed yr Oen' (Dat 7:9-17)

Eu llawenydd ydi cael eu dyfarnu'n gyfiawn yn gyfeillion i Dduw, fel 'roedd Abraham (Iago 2:23)

Wedi iddyn' nhw oroesi gorthrymder mawr, yn raddol fe gân' nhw eu "rhyddhau o gaethiwed a llygredigaeth" a'u "dwyn i ryddid a gogoniant plant Duw" (Rhuf 8:21)

Mi fedrwn ni hefyd brofi budd a lles y pridwerth yn ein byw bob dydd

'Does dim rhaid inni gael ein llethu wrth deimlo nad ydym ni'n ddigon da

Nid dim ond yn niwed ein cyflwr amherffaith mae Jehofah yn edrych arnom ni; mae e'n gwybod yn iawn sut medrwn ni fod pan fydd grym aberth pridwerthol Iesu i adfer yn cael ei weithredu'n llawn (*w*90 2/15 23)

Os byddwn ni'n gwneud rhywbeth o'i le, fe ddylem ni edifarhau a gweddïo am faddeuant ar sail y pridwerth (Act 3:19; 1Pedr 3:21; 1In 1:9)

Trwy ein Harchoffeiriad, Iesu, mi fedrwn ni 'nesáu mewn hyder at orsedd gras, er mwyn derbyn trugaredd yn gymorth yn ei bryd' (Heb 4:14-16)

DERBYNIWCH RAS DUW (5 mun.)

Y prawf mwyaf fod Duw yn ein caru ni ydi ei fod wedi trefnu'r pridwerth (Rhuf 5:8)

Mae cariad Iesu hefyd yn dod i'r amlwg wrth iddo'i offrymu ei hun mor barod yn bridwerth (In 15:13)

Fe ddylai pawb ddangos eu bod nhw'n ddiolchgar i Dduw a Christ am ein caru ni gymaint

Rhowch eich ffydd yn aberth pridwerthol Iesu ar waith (In 3:16; 17:3)

Dangoswch hyn trwy was'naethu Duw yn selog (2Cor 5:14)

D'wedwch wrth eraill fod gwaredigaeth ryfeddol wedi'i threfnu ar ein rhan (Rhuf 10:10)

Cadwch eich ymddygiad yn lân (1Pedr 1:14-16)

'Diolch i Dduw trwy Iesu Grist' am y rhodd ragorol hon-y pridwerth! (Rhuf 7:25)

(Glynwch yn glòs at y deunydd sy wedi'i amlinellu, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. Does dim rhaid darllen pob ysgrythur a grybwyllir na gwneud sylwadau arnyn' nhw)